

Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales
Polisi Ffioedd

Polisi Ffioedd Dysgu 2017 - 2018

Cwmpas

Lluniwyd y polisi hwn i fod yn berthnasol i'r holl weithgareddau y mae ffioedd taladwy yn gymwys iddynt. Mae'n cynnwys:

- Rhaglenni addysg oedolion sy'n derbyn cyllid cyhoeddus drwy'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), Llywodraeth Cymru.
- Darpariaeth Cymraeg i Oedolion sy'n derbyn cyllid cyhoeddus trwy Brifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth.
- Mynediad i raglenni Addysg Uwch.
- Rhaglenni astudio cost lawn lle nad oes cyllid cyhoeddus ar gael.
- Gwasanaethau achredu sy'n cynnig gwasanaeth cymorth pwrpasol i ystod eang o sefydliadau a chyflogwyr.

Mae'r polisi yn berthnasol i ddysgwyr Addysg Oedolion Cymru sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Yr holl ddysgwyr 'cartref' (dysgwyr sydd wedi bod yn byw yn y DU, Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd am y tair blynedd diwethaf. Gall y dysgwyr hyn fod yn 16-18 neu'n 19+ oed)
- Dysgwyr rhyngwladol sydd wedi dod i mewn i'r DU at ddibenion astudio, a'r rheiny sydd wedi dod i mewn i'r wlad am resymau eraill ond sy'n dymuno astudio'n rhan-amser tra'u bod yma

Ar ôl ei gymeradwyo, bydd y Polisi Ffioedd yn cael ei gyfleu i Reolwyr a Chydlynwyr Dysgu a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl aelodau staff perthnasol yn ymgyswrtu â'r polisi.

Bydd y Polisi Ffioedd ar gael o wneud cais.

Strwythur Ffioedd ar gyfer 2017 – 2018

Polisi'r Llywodraeth, gydag ychydig iawn o eithriadau, yw bod disgwyl i fyfyrwyr sy'n oedolion dalu ffioedd dysgu. Mae cyllid yn cael ei leihau yn unol â strategaeth gyllido'r llywodraeth. Mae'r cyllid hwn yn darparu elfen o gymhorthdal ar gyfer costau'r rhan fwyaf o raglenni.

Yn nodweddiadol, mae ffi cwrs yn cynnwys sawl rhan:

- **Ffi Ddysgu** sy'n daladwy i ddysgwr gyfranogi mewn cwrs
- **Ffi Gofrestru** sy'n daladwy am i ddysgwr gofrestru gyda Chorff Dyfarnu er mwyn galluogi dyfarnu unrhyw gymhwyster
- **Ffi Arholiad/Achrediad** sy'n daladwy am i ddysgwr ymgymryd ag arholiad neu asesiad er mwyn galluogi cwblhau unrhyw gymhwyster a/neu hawlio'r dystysgrif gymhwyster/achrediad a gyflawnwyd

Costau Ychwanegol yw'r costau hynny y gallai dysgwr / sefydliad partner fynd iddynt neu wrth ymgymryd â chwrs, sy'n ychwanegol at ffi'r cwrs (e.e. offer arbenigol, ymweliadau addysgol). Mewn rhai achosion, mae'r ffioedd hyn yn elfen orfodol o'r cwrs a rhaid eu talu er mwyn galluogi cwblhau a chyflawni unrhyw gymhwyster.

Mae'r ffioedd arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2017 / 18 fel a ganlyn felly:

- Cyfrifir ffioedd dysgu ar gyfradd fesul awr, sef **£3.00** yr awr. Codir y ffi hon ar y cyd â chyllid cyhoeddus drwy'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), Llywodraeth Cymru.
- Nid yw'r ffioedd hyn yn cynnwys y ffioedd cofrestru neu'r ffioedd arholiad / achrediad ar gyfer cyrff dyfarnu cymwysterau sy'n cael eu pasio ymlaen i'r dysgwr pan nad yw cyllid drwy'r Adran addysg a Sgiliau (AdAS), Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio.
- Gall rhai cyrsiau gynnwys deunydd ychwanegol neu gostau offer hefyd, a rhoddir gwybod i ddysgwyr am y rhain cyn iddynt ddechrau eu cwrs.
- Codir ffi am nifer fach o gyrsiau ar gyfraddau marchnad unigol am fod costau cyflenwi ychwanegol ynghlwm â nhw. Dangosir y ffioedd dysgu am y cyrsiau hyn yn glir ar y wefan ac mewn deunyddiau hyrwyddo eraill.
- Mae darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Sgiliau Hanfodol yn rhad ac am ddim.
- Gall consesiynau fod yn berthnasol – gweler yr adran ar gonsesiynau i gael manylion.

Mae'r ffioedd dysgu arfaethedig am gyrsiau eraill a gwasanaethau achredu ar gyfer 2017 / 18 fel a ganlyn:

- **Mae hyfforddiant pwrpasol a theilwredig ar gyfer cyflogwyr** yn destun prisiau a drafodir yn unigol am y pecyn a gytunwyd. Rhaid i'r pris ar gyfer pob pecyn hyfforddiant gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pennaeth Cyllid. Mae'r hyfforddiant wedi'i deilwra yn perthyn i ddau gategori, sef y Sector Gwirfoddol (mae hyn yn cynnwys y 3^{ydd} Sector) a'r Sector Preifat.

Gellir gweld diffiniadau o'r rhain isod gyda chyfraddau cyflenwi tiwtoriaid fesul awr: -

- Y sector gwirfoddol neu'r sector cymunedol (hefyd, y sector nad yw'n gwneud elw neu'r sector "nid er elw") yw'r ddyletswydd gweithgarwch cymdeithasol gan sefydliadau sy'n sefydliadau dielw ac anllywodraethol. Gelwir y sector hwn y trydydd sector hefyd.

O ran cyrsiau hyfforddi pwrpasol, codir **£45** yr awr ar gyfer cyflwyno gan diwtor. Nid yw hyn yn cynnwys **Ffioedd Arholiad/Achrediad** lle nad yw cyllid drwy'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio

- Y sector preifat yw'r rhan o'r economi, y cyfeirir ato weithiau fel y sector dinasyddion, sy'n cael ei redeg gan unigolion neu grwpiau preifat, fel menter er elw fel arfer, ac nad yw'n cael ei reoli gan y Wladwriaeth (cyfeirir at feysydd o'r economi a reolir gan y wladwriaeth fel y sector cyhoeddus)

O ran cyrsiau hyfforddi pwrpasol, codir **£65** yr awr ar gyfer cyflwyno gan diwtor. Nid yw hyn yn cynnwys **Ffioedd Arholiad/Achrediad**. Ni fydd y cyrsiau hyfforddi pwrpasol hyn yn cael cyllid drwy'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), Llywodraeth Cymru. Cymhwysir **Ffioedd Arholiad/Achrediad** ar sail unigol yn unol â ffioedd cyrff dyfarnu perthnasol.

- Mae **Gwasanaethau Achredu** yn cynnig gwasanaeth cymorth pwrpasol i ystod eang o sefydliadau a chyflogwyr. Mae hyn yn destun prisiau a drafodir yn unigol am becyn a gytunwyd. Dangosir mwy o wybodaeth am y gwasanaethau hyn yn glir ar y wefan, mewn Cytundebau Partneriaeth a thrwy Adrannau Cyflwyno Rhanbarthol a Chenedlaethol.
- Nid yw ffioedd dysgu ar gyfer **myfyrwyr tramor** yn denu unrhyw gyllid gan y llywodraeth ac fe'u cynlluniwyd i adennill cost lawn cyflwyno, gyda chyfraniad priodol at orbenion cyffredinol. Cyfrifir ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr tramor ar gyfradd fesul awr o **£7.70** yr awr, oni nodir fel arall.

Consesiynau

Ar gyfer dysgwyr a ariennir gan brosiectau (e.e. Cronfa Gymdeithasol Ewrop), rhoddir consesiynau ffioedd dysgu gan ddibynnu ar fanyleb y prosiect.

Ar gyfer dysgwyr a ariennir gan brosiectau, rhoddir consesiynau ffioedd cofrestru ac arholiadau gan ddibynnu ar fanyleb y prosiect.

Ar gyfer dysgwyr rhyngwladol (heb fod o'r Undeb Ewropeaidd), ni roddir unrhyw gonsesiynau ffioedd dysgu.

Ar gyfer dysgwyr adfer cost lawn a chysiau Proffesiynol, ni roddir unrhyw gonsesiynau ffioedd cofrestru nac arholiadau.

Mae Addysg Oedolion Cymru yn cadw'r hawl i godi ffioedd cofrestru ar y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael consesiynau ffioedd cofrestru ac arholiadau o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Nad yw gofynion presenoldeb a/neu waith cwrs wedi'u bodloni
- Mae'r dysgwr yn ail-wneud cymhwyster cyfan neu ran o gymhwyster
- Mae'r dysgwr yn methu mynychu arholiad heb reswm da

Mae Addysg Oedolion Cymru yn cadw'r hawl i wirio cymhwysedd pob dysgwr ar gyfer consesiynau ffioedd, ac i wneud y gwiriadau angenrheidiol a gofyn am dystiolaeth i gefnogi cymhwysedd y dysgwr.

Cyfrifoldeb y dysgwyr yw hysbysu Addysg Oedolion Cymru am unrhyw newid mewn statws a allai effeithio ar eu cymhwyster ar gyfer consesiynau ffioedd. Mae Addysg Oedolion Cymru, fodd bynnag, yn cadw'r hawl i wneud gwiriadau i wirio bod dysgwyr yn dal yn gymwys i gael consesiynau ffioedd.

CONSESIWN 1 / FFI LLEIAFSWM – £1.00 yr awr

Myfyrwyr sy'n derbyn unrhyw rai o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith / Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Budd-dal Analluogrwydd
- Credyd Treth i Bobl Anabl
- Lwfans Gofalwyr
- Budd-dal Tai
- Budd-dal y Dreth Gyngor
- Taliad Mamolaeth/Tadolaeth/Mabwysiadu Statudol, Tâl Salwch Statudol
- Os nad ydynt yn derbyn lwfans Cwmni ychwanegol

CONSESIWN 2 / FFI OSTYNGOL – £2.00 yr awr

- Credyd Treth Gwaith
- Lwfans Gweini
- Budd-dal Anafiadau Diwydiannol
- Pensiwn Rhyfel/Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Pensiwn y Wladwriaeth

Er mwyn derbyn y gostyngiad consesiynol, rhaid darparu tystiolaeth yn y dosbarth cyntaf.

Gall dysgwyr sy'n teimlo bod ganddynt amgylchiadau ariannol eithriadol, nad yw'r uchod yn eu cynnwys, gysylltu â'u Rheolwr Rhanbarthol lleol.

Ffioedd Cofrestru a Ffioedd Arholiadau

Mae'r prisiau a restrwyd uchod ar gyfer ffioedd dysgu yn unig. Mae cyrff dyfarnu yn codi ffioedd cofrestru, mynediad a/neu ffioedd arholiadau ychwanegol ar gyfer cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau ffurfiol. Fel arfer, caiff y rhain eu casglu gan Addysg Oedolion Cymru ar ran y corff dyfarnu.

Fel arfer mae'n ofynnol talu ffioedd cofrestru yn y sesiwn gyntaf neu'r ail sesiwn o gwrs, a chânt eu casglu gyda'r ffi ddysgu adeg cofrestru (neu cyn hynny yn achos cyrsiau byr). Fodd bynnag, caiff ffioedd dysgu a ffioedd cofrestru eu dyfynnu ar wahân ac yna rhoddir cyfanswm pris am y cwrs. Mae hyn yn sicrhau tryloywder ac yn rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am y cyfanswm ffioedd am eu cwrs.

Caiff ffioedd arholiad eu casglu gyda ffioedd y cwrs, a rhaid i unrhyw wybodaeth farchnata, gan gynnwys taflenni gwybodaeth y cwrs, ddweud yn glir bod ffi arholiad i'w thalu yn ychwanegol at y ffi ddysgu, a rhaid rhoi syniad o'r swm hwnnw.

Codir ffioedd am gofrestriadau hwyr ar gyllidebau ardal.

Dulliau talu

Mae Addysg Oedolion Cymru yn derbyn taliad am ffioedd cyrsiau gan unigolion drwy'r dulliau canlynol:

- Ar-lein
 - Arian parod
 - Siec
 - Archeb sefydlog
- yn daladwy i Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales
i'r rhai sy'n talu mewn rhandaliadau

- Cerdyn Debyd
- Cerdyn Credyd

Gellir cynnig rhandaliadau i ddysgwyr sy'n talu ffioedd cwrs ar y sail ganlynol:

- Telir rhandaliadau mewn symiau cyfartal
- Bydd angen i'r holl daliadau gael eu talu cyn diwedd y tymor pan fydd y cwrs yn dechrau
- Ni all trefniant i dalu mewn rhandaliadau gael ei gynnig yn ôl-weithredol i unrhyw fyfyrwr sydd eisoes wedi talu ei ffi cwrs
- Caiff y trefniant hwn ei adolygu'n flynyddol.

Ar gyfer yr holl gyrsiau, gellir gwneud taliad yn y sesiwn gyntaf neu'r ail sesiwn o'r cwrs, neu yn bersonol mewn swyddfeydd ardal, drwy'r post neu dros y ffôn.

Pe na bai ffioedd cwrs yn cael eu talu, gall fod yn ofynnol i ddysgwyr dynnu allan o'r cwrs a bydd Addysg Oedolion Cymru yn mynd ar drywydd yr unigolyn i dalu'r ffioedd yn llawn drwy ba fodd bynnag y teimla ei fod yn briodol.

Trosglwyddiadau

Pe bai dysgwyr yn trosglwyddo rhwng cyrsiau, ni fydd unrhyw gosb ariannol, ond os oes ffi cwrs uwch am y cwrs y trosglwyddir iddo, rhaid i'r dysgwr dalu'r gwahaniaeth pan fydd yn trosglwyddo.

Cofrestriadau Hwyr

Codir y ffi lawn a'r ffi gofrestru ar gofrestriadau hwyr er y gellid fod wedi colli dosbarthiadau, oni bai bod amgylchiadau arbennig.

Polisi Ad-dalu

Mae Addysg Oedolion Cymru yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw gwrs am fod nifer annigonol o ddysgwyr wedi cofrestru, neu am unrhyw resymau gweithredol eraill, ac yn y cyfryw achosion, bydd ffioedd dysgu, a ffioedd cofrestru lle bo'n briodol, yn cael eu had-dalu'n awtomatig i'r rheiny sydd wedi cofrestru. Mae angen ffurflen newid cronfa ddata i gadarnhau bod y cwrs wedi'i gau. Lle bynnag y bo modd, cynigir diwrnod/amser/lleoliad arall, neu gwrs arall, i'r dysgwr.

Mae gan ddysgwyr sy'n cofrestru'n gynnar ac yn dymuno tynnu allan cyn dechrau'r cwrs hawl i gael ad-daliad, ar yr amod bod Addysg Oedolion Cymru yn derbyn y cais yn ysgrifenedig o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad dechrau.

Wedi i'r cwrs ddechrau, ni fydd ad-daliadau'n cael eu rhoi fel arfer i ddysgwyr sy'n tynnu allan. Rhaid i geisiadau am ad-daliadau yn ymwneud ag amgylchiadau personol gael eu gwneud yn ysgrifenedig, i'r Rheolwr Dysgu perthnasol, gan nodi'r rheswm dros y cais yn glir.

Bydd ad-daliadau'n cael eu hawdurdodi gan y Rheolwr Cyflwyno Rhanbarthol / Cenedlaethol perthnasol a fydd yn anfon **ffurflen REF001 (Atodiad A)** ymlaen at y Pennaeth Cyllid.

Ar ôl derbyn ffurflen REF001, bydd y Swyddfa Gyllid:

- yn gwirio bod y ffi sydd i'w had-dalu wedi'i thalu gan y dysgwr (ac, yn achos siec, bod y taliad wedi'i glirio drwy'r system fancio);
- yn tynnu siec am yr ad-daliad perthnasol;
- yn cyflwyno'r siec i'w lofnodi, ynghyd â'r ffurflen REF001;
- yn anfon y siec wedi'i lofnodi, ac yn cadw'r ffurflen REF001 ar ffeil Ad-daliadau Addysg Oedolion Cymru;
- yn anfon copi o'r ffurflen REF001 gan nodi'r wybodaeth ad-dalu yn glir i'r Rheolwr Dysgu perthnasol.

Mae cwynion yn ymwneud â chyrsiau yn destun Gweithdrefn Gŵynion Addysg Oedolion Cymru a dylid eu cyfeirio at y Rheolwr Ansawdd. Bydd yn trefnu i ymchwilio i'r gŵyn ac, ar sail y canfyddiadau, yn gwneud argymhelliad i'r Pennaeth Cyllid ynghylch a ddylid rhoi ad-daliad.

Gwneir ad-daliadau cyn pen **28** diwrnod.

Ffioedd Ychwanegol

Mae Addysg Oedolion Cymru yn cadw'r hawl i godi ffi ar ddysgwyr am ddiwygiadau i dystysgrifau neu gopïau o dystysgrifau os yw'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan y dysgwr am reswm heblaw am gamgymeriad a wnaed gan Addysg Oedolion Cymru.

Ni fydd tystysgrif(au) yn cael ei dosbarthu hyd nes telir y ffi yn llawn.

Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales
Ad-dalu Ffioedd

Enw'r Dysgwr (yn llawn).....

Rhif Adnabod y Dysgwr

Teitl y Cwrs

Cod y Cwrs

Ffi a Dalwyd wrth Gofrestru £ :

Swm yr Ad-daliad £ :

Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod y dysgwr a enwyd uchod yn gymwys i gael yr ad-daliad ffioedd a dalwyd o ganlyniad i ganslo'r cwrs gan Addysg Oedolion Cymru neu o ganlyniad i'r dysgwr yn tynnu allan o'i gofrestriad. Rwyf wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan y dysgwr yn nodi ei amgylchiadau personol a'r rheswm dros dynnu allan.

Llofnod: Dyddiad

Enw: (Rheolwr Dysgu)

Llofnod: Dyddiad

Enw: (Swyddog Cyllid)

Rhif Siec:

Trwy Gerdyn:

Dyddiad:

Swm:

Cod:

Defnydd Swyddfa yn unig